Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 21 Mai 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer) a Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

14. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Wynne Hughes.

15. CYFLWYNIAD YNGHYLCH MENTER TREFI TACLUS YN RHUTHUN

Croesawodd y Maer Gareth Jones o Gadw Cymru'n Daclus a fu'n trafod y dewisiadau o ran sefydlu grŵp Trefi Taclus yn Rhuthun, gan roi enghreifftiau o sut mae'r cynllun yn gweithio yn Llangollen. Dywedodd ei bod yn hanfodol bwysig cadw diddordeb yr aelodau a bod â rhaglen waith gynlluniedig. Dywedodd y Cynghorydd Gavin Harris ei fod yn fodlon cydgysylltu a chydlynu hyn.

PENDERFYNWYD*: cyfeirio hyn yn ôl at y Pwyllgor Amwynderau i'w drafod manylion sefydlu'r fenter yn Rhuthun.*

16. CYFLWYNIAD YNGHYLCH KINGDOM

Croesawodd y Maer Mr Tim Wynne-Evans, Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Diogelwch Cymunedol) gyda Chyngor Sir Ddinbych. Amlinellodd drefniadau staffio Kingdom Security, sef pedwar swyddog sy'n mynd allan yn rheolaidd, arweinydd tîm a swyddog gweinyddol. Roedd yn monitro eu gweithgareddau'n rheolaidd a dywedodd eu bod yn ymweld â phob tref yn Sir Ddinbych o leiaf unwaith yr wythnos. Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, ac esboniodd aelod mai'r argraff oedd bod y swyddogion yn canolbwyntio ar yr ardaloedd mwy poblog, ac ar bobl yn gollwng sbarion ei sigaret. Dywedodd Mr Wynne-Evans mai sbwriel yn gysylltiedig ag ysmygu oedd y math mwyaf sylweddol o sbwriel yn y sir, a bod rhaid i swyddogion weld y weithred o ollwng sbwriel. Anogodd aelodau i ddarparu gwybodaeth ynghylch cŵn yn baeddu neu adael sbwriel arall i'w adran.

PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad.*

17. DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd datganiadau o fudd personol gan y canlynol: Y Cynghorydd Stephen Beach yng nghyswllt ag eitemau agenda 20 i a ii – Ceisiadau am gymorth ariannol gan Bwyllgor Gŵyl Rhuthun ac Ymlaen Rhuthun; y Cynghorydd Menna Jones ynghylch eitem 20 iv – Cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch; y Cynghorydd Dave Snape yng nghyswllt eitem 20 ii – Cais am gymorth ariannol gan Ymlaen Rhuthun; Y Cynghorydd Anne Roberts o ran eitemau 20 ii a iv – Ceisiadau am gymorth ariannol gan Ymlaen Rhuthun a Chymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch; y Cynghorydd Heather Williams o ran eitemau 20 iii iv – Ceisiadau am gymorth ariannol gan CAB Rhuthun a Chymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a'r Cynghorydd Emrys Wynne yng nghyswllt eitem 20 iii – Cais am gymorth ariannol gan CAB Rhuthun a datganiad o fudd personol ac ariannol gan y Cynghorydd Ifan Wyn fel Trysorydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun yng nghyswllt eitem 20 i – Cais am gymorth ariannol gan Bwyllgor Gŵyl Rhuthun.

18. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

24.04 Cyfarfod gydag Arolygydd Heddlu Rhuthun
25.04 Uwch gynhadledd Dyfodol Rhuthun, Canolfan Grefft
Cyfarfod Pwyllgor y Gymdeithas Efeillio
26.04 John Ellis Roberts yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed yn Awelon
Digwyddiad gyda'r nos Dyfodol Rhuthun
27.04 Noson 50au-60au Maer Rhuddlan

28.04 Cyngerdd Elusennol y Maer yn Theatr John Ambrose
29.04 Digwyddiad Marathon Ffotograffau Dyfodol Rhuthun
30.04 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
04.05 Te prynhawn Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun
08.05 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg
09.05 Cyngerdd Elusennol Maer Bae Colwyn yn Theatr Colwyn
11.05 Bore coffi a gynhaliwyd gan Urdd Cynddylifol y Byffalos yn Llys Goodman
14.05 Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun

19. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol ac Is-bwyllgor y Cynllun Iaith Gymraeg, Cyngerdd Elusennol y Maer, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyngerdd Elusennol y Maer, arddangosfa Dyfodol Rhuthun, Fforwm Busnes Dyfodol Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Stephen Beach	Arddangosfa Dyfodol Rhuthun, Fforwm Busnes Dyfodol Rhuthun, Gwarchod y Gymdogaeth Gogledd Cymru, Te prynhawn Urdd Cyfeillion Llys Erw a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Gavin Harris	Digwyddiadau Wythnos Dyfodol Rhuthun a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Cyngerdd Elusennol y Maer a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. John Wynne Hughes	Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Rosie Hughes	Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Menna Jones	Cyngerdd Elusennol y Maer.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Arddangosfa Dyfodol Rhuthun, Uwch gynhadledd Dyfodol Rhuthun, cinio codi arian ar gyfer Dyfodol Rhuthun, Cyngerdd Elusennol y Maer, cyfarfod gyda chynrychiolydd Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych i drafod agweddau iechyd a diogelwch safle newydd Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Anne Roberts	Uwch gynhadledd Dyfodol Rhuthun, cyfarfod busnes Dyfodol Rhuthun, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch ynghylch Drysau Agored, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, bore coffi Urdd Cynddylifol y Byffalos a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Heather Williams	Arwain taith gerdded dywysedig fel rhan o Wythnos Dyfodol Rhuthun ac ymweld â'r arddangosfa, cymryd rhan ym Marathon Ffotograffau Rhuthun fel rhan o Wythnos Dyfodol Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Ifan Wyn	Cyngerdd Elusennol y Maer a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Emrys Wynne	Cyngerdd Elusennol y Maer a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.

20. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2018 yn gywir.*

21. MATERION YN CODI

Gofynnodd aelod am wahodd Mr Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol gyda Chyngor Sir Ddinbych, i anerch yr aelodau ynghylch eu goblygiadau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd.

22. COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018 yn gywir.*

23. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai, a chadarnhau'r argymhelliad y dylid lleihau'r balans yng nghyfrif Undeb Credyd Cambrian i £30,000.00, gyda'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i gyfrif Cronfa Adneuo CCLA.

RESOLVED*: cadarnhau bod cofnodion yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018 yn gywir, a chadarnhau a gweithredu'r argymhelliad i leihau'r balans yng nghyfrif Undeb Credyd Cambrian i £30,000.00, gyda'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i gyfrif Cronfa Adneuo CCLA.*

24. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018.*

25. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018.*

26. COFNODION CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU A'R PWYLLGOR AMWYNDERAU

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018.*

27. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018, yn cynnwys cael ei adnabod fel y Pwyllgor Iaith o hyn ymlaen.*

28. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau bod eu manylion cyswllt yn gywir.

PENDERFYNWYD*: diweddaru'r manylion a dosbarthu copi wedi'i ddiwedaru i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.*

29. AELODAETH PWYLLGORAU 2018/19

Gofynnwyd i'r aelodau nodi pa un oedd well ganddynt o ran bod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu neu'r Pwyllgor Amwynderau a gwirfoddoli eu henwau ar gyfer yr is-bwyllgorau.

PENDERFYNWYD*: diweddaru manylion aelodaeth y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau fel a ganlyn: Pwyllgor Amwynderau – y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne. Y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu – y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn. Yr Is-bwyllgor Cymorth Ariannol: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, John Wynne Hughes a Menna Jones. Pwyllgor y Gymraeg: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Robert Owen-Ellis, Ifan Wyn ac Emrys Wynne. Is-bwyllgor Craffu Ariannol: Y Cynghorwyr Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts a Dave Snape. Grŵp Archwilio Dogfennau: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Rosie Hughes a Robert Owen-Ellis. Mae'r Maer a'r Dirprwy Faery yn aelodau ex-officio yr holl bwyllograu ac is-bwyllgorau uchod.*
Is-bwyllgor Staffio: Y Maer a'r Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts ac Emrys Wynne. Is-bwyllgor Apêl: Y Dirprwy Faer a'r Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Rosie Hughes, Menna Jones, Dave Snape, Heather Williams ac Ifan Wyn.

30. CYNRYCHIOLIAETH Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL 2018/19

Bu'r aelodau'n ystyried cynrychiolaeth aelodau ar gyrff allanol. Gofynnodd Cynghorwyr i'r tri aelod Cyngor Tref Rhuthun sydd ar Dîm y Dref alw cyfarfod y corf hwnnw, a gwneud ymholiadau ynghylch Siambr Fasnach Rhuthun i weld a yw'n weithredol eto erbyn hyn.
PENDERFYNWYD*: diweddaru'r rhestr a dosbarthu'r manylion yn y cyfarfod nesaf.*

31. ADNEWYDDU AELODAETH – CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar gost o £30.00.
PENDERFYNWYD*: adnewyddu aelodau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar gost o £30.00.*

32. COFFAU CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF

Dywedodd y Cynghorydd Rosie Hughes y byddai'n gwneud rhagor o ymholiadau ac yn darparu adroddiad yn y cyfarfod nesaf.
PENDERFYNWYD*: derbyn diweddariad yn y cyfarfod nesaf.*

33. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan:

i. Pwyllgor Gŵyl Rhuthun – gofynnodd aelod bod y sefydliad hwn yn cyflwyno ffurflen gais, er mwyn bod yn gyson gyda phawb, a gohirio'r eitem. Cynigiwyd trafod hyn gan yr holl aelodau rhwng cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Amwynderau.
ii. Ymlaen Rhuthun – cais am £500.00 tuag at gostau cynnal Carnifal Rhuthun – cynigiwyd ac eiliwyd y swm yma a'i gymeradwyo gan yr holl aelodau.
iii. Cyngor ar Bopeth Rhuthun – cais am £500.00 tuag at gynllun Cyfnewidfa Gwisg Ysgol yn Rhuthun – cyfeiriodd yr aelodau at y cyfraniad a ddarparwyd i CAB Rhuthun eisoes a chynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais hwn.
iv. Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch – Drysau Agored – cais am £1,500.00 tuag at gostau cynnal y digwyddiadau Drysau Agored yn Rhuthun – cynigiwyd ac eiliwyd y swm hwn a phleidleisiwyd o blaid.

PENDERFYNWYD*: darparu cymorth ariannol o £500.00 i Ymlaen Rhuthun yn unol â'u cais, a £1,500 i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, yn unol â'u cais, a gohirio cais Cymdeithas Gŵyl Rhuthun i 11 Mehefin a gwrthod cais CAB Rhuthun.*

34. MANDAD BANC – HSBC

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau ychwanegol llofnodwr newydd, y Dirprwy Faer, unwaith y bo'r broses o drosglwyddo'r cyfrifon o Barclays i HSBC wedi'i chwblhau.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau ychwanegu'r Dirprwy Faer fel llofnodwr.*

35. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn yr adroddiad Archwiliad Mewnol gan JDH Business Solutions am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018, a oedd yn cynnwys tri mater ac un nodyn canllaw. Y mater cyntaf oedd balansau anghywir ar y ffurflen flynyddol. Ymddiheurodd y Clerc am hyn a dywedodd y byddent yn cael ei diwygio cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd allanol. Yr ail fater oedd nad oedd cadarnhad wedi'i lofnodi o dderbyn y cyfraniad o £2,000.00 i CAB Rhuthun. Esboniodd y Clerc y derbyniwyd llythyr yn diolch ac roedd JDH Business Solutions wedi cynghori cadw copi gyda'r llythyr dyfarnu'r cyfraniad yn y dyfodol. Y trydydd mater oedd bod gan y Cyngor swm mawr o Gronfeydd Cyffredinol a'r argymhelliad oedd y dylai'r Cyngor adolygu lefel y cronfeydd a chlustnodi unrhyw gronfeydd sy'n cael eu cadw ar gyfer prosiectau penodol. Roedd y nodyn canllaw ynghylch y newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu data a chyflwyno'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac y dylai'r cyngor adolygu hyn.

PENDERFYNWYD*: derbyn yr adroddiad Archwilio Mewnol a gweithredu'r argymhellion.*

36. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2018.*

37. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5169	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Adnewyddu cofrestriad diogelu data		£35.00
5170	Clwb Rygbi Rhuthun	Dewis achos Person Ifanc y Flwyddyn		£100.00
5171	Grŵp Panto Rhuthun	Dewis achos Grŵp Cymunedol y Flwyddyn		£100.00
5172	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad i'r elusen		£100.00
5173	Y Cynghorydd Jim Bryan	Costau teithio – cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng		£47.00
5174	SLCC Enterprises Ltd	Cynhadledd ar y cyd SLCC ac Un Llais Cymru, Llandrindod	*	£90.00
5175	JDH Business Services Ltd	Ffi archwiliad mewnol 2017/18	*	£330.00
5176	Y Cynghorydd Ian Lewney	Lwfans y Maer – taliad cyntaf		£600.00
5177	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		
5178	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd	*	£270.00
5179	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mai		£528.39
5180	The Don Photography	Tynnu lluniau yng Nghyfarfod Blynyddol 2018		£100.00

38. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 18 Mehefin 2018 am 7.00pm.*